OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2023 Rhif 970 (Cy. 157)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 23 (Rogiet) i Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *11 Medi 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M48, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M48 (Cyffordd 23 (Rogiet) i Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse), Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Medi 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:00 o'r gloch ar 11 Medi 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw traffordd yr M48 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Cyfyngiad

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

**4.**—(1) Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r

---

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Medi 2023

*Tim Barnes*
Pennaeth Rheoli Asedau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n uno â cherbytffordd tua'r dwyrain yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet) hyd at bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o'i thrwyniad â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o'i thrwyniad â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at y man lle y mae'n uno â cherbytffordd tua'r gorllewin yr M4 wrth Gyffordd 23 (Rogiet).

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â cherbytffordd tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at bwynt 250 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin yr M48 sy'n ymestyn o'i thrwyniad â cherbytffordd tua'r gorllewin yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse) hyd at bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin traffordd yr M48 wrth Gyffordd 2 (Cyfnewidfa Newhouse).